


## Ymbil am heddwch rhwng Hamas a gwladwriaeth Israel



Penderfynodd Cyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru ddatgan yn gryf o blaid heddwch yn dilyn y gyflafan ddiweddar rhwng Hamas a gwladwriaeth Israel. Er bod yr ymosodiad diweddaraf hwn gan Hamas yn un arswydus, nid trwy ddial a lladd trigolion diniwed Gaza y mae datrys y gwrthdaro.

Apeliwn ar Hamas i ryddhau'r gwystlon yn ddiymdroi.

Galwn ar y Cenhedloedd Unedig i gynorthwyo'r sefyllfa drwy wneud y canlynol:

darparu coridorau diogel ar gyfer cymorth dyngarol;

hyrwyddo cyfnod o atal saethu taflegrau;

anfon lluoedd cadw'r heddwch i'r ardal;

parhau i weithio'n ddiflino er mwyn darganfod datrysiaid teg a chyfiawn er budd pawb: Israel, y Palestinaid a'r Gymuned Ryngwladol gyfan yn y Dwyrain Canol.

Galwn ar Israel a Hamas i gytuno i gadoediad o dan arweiniad y Cenhedloedd Unedig.

Galwn ar bob ochr i ymatal rhag dial yn dreisgar.

### Gweddi dros heddwch

Ymunwn â gweddiâu niferus ar draws y byd dros drigolion Israel a Gaza.

Gweddiwn am ddiwedd i'r gwrthdaro yn Israel a Gaza, ac y byddi Di, o Arglwydd, Tywysog Hedd, yn dod â heddwch mewn ffordd wyrthiol i'r sefyllfa.

Gweddiwn dros y rhai sydd yn galaru am golli ceraint a chartrefi, a thros y rhai sydd wedi eu dal yn gaeth.

Gweddiwn hefyd dros ein brodyr a'n chwiorydd Bedyddiedig Iddewig, Palestinaidd, a rhai o genhedloedd eraill sydd wedi eu dal yn y gwrthdaro.

Gweddiwn y byddant yn tywynnu dy oleuni yn y sefyllfa yn dy nerth Di, ac y byddant hefyd yn cael cysur a nerth drwy'r Ysbryd Glân. Amen.

## Diolchgarwch am oes o wasanaeth yn Rhyd-lwyd, Lledrod

Bwn Sul, 22 Hydref, yn nhymor Diolchgarwch, daeth cynulledifa luosog ynghyd i gapel Rhyd-lwyd, Lledrod, a hynny i gyflwyno medal Gee i Mrs Mair Jones am oes o wasanaeth fel athrawes ysgol Sul. Braff oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn, gyda chymaint o gyn-ddisgyblion iddi wedi gwneud ymdrech arbennig i ymuno yn y dathliad.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Miss Beti Griffiths, a estynnodd groeso cynnes i bawb a chyflwyno rhai o swyddogion a phlant yr ysgol Sul i gymryd at y rhannau arweiniol a ledio'r emynau. Roedd Beti hefyd wedi dod â'i medal hithau gyda hi, sef medal Gee 'er anrhydedd' a gyflwynwyd iddi dros ddeng mlynedd yn ôl fel arwydd o werthfawrogiad am gyfraniad arbennig i waith plant. Roedd hithau wedi arloesi drwy gynnal clybiau plant dros ddegawdau yn yr ysgol gynradd, gan hefyd fynd â channoedd o blant i Goleg y Bala yn eu tro.

Wedi'r rhannau arweiniol, trosglwyddwyd y cyfarfod i ofal Aled Davies o'r Cyngor Ysgolion Sul. Cafwyd neges ganddo am y ffermwr a aeth allan i hau, gan ein hatgoffa bod yr heuwr yn hau'n helaeth ac yn eang, ac yn 'wastraffus' ar adegau, o gofio am yr had yn disgyn ar y llwybr a'r creigiau. Aeth ymlaen i sôn mai felly mae hi yn hanes rhai cyffelyb i Mair Jones a phob athro neu athrawes ysgol Sul - hau had y gair yn eang ac yn helaeth, gan dderbyn na fydd pob hedyn yn disgyn ar dir ffrwythlon. Fe'n hatgoffwyd mai hau yw ein gwaith ni, ac mai Duw, drwy'r Ysbryd Glân, sy'n cynaeafu ac yn medi.

Aeth ymlaen i sôn am gyfraniad y teulu Gee, a'r ffaith fod medalau'n cael eu cyflwyno o hyd i gydnabod ffyddlondeb i waith yr ysgol Sul yng Nghymru. Cafwyd gair o werthfawrogiad am gyfraniad arbennig Mair Jones i waith yr ysgol Sul dros gyfnod



maith o amser gan Beti Griffiths, a cyflwynwyd y fedal iddi gan Aled ar ran y teulu Gee.

Wedi cryn glapio, a'r capel yn dawel unwaith eto, cafwyd gair o dystiolaeth a diolch gan Mair, gan ddweud cymaint o faint oedd cael rhannu am Iesu Grist gyda'r plant o Sul i Sul.

Yn dilyn y cyfarfod cafwyd gwledd yn llawn danteithion, a chyfle i bawb gymdeithasu a mwynhau dros baned. Diolch am gyfraniad Mrs Mair Jones, a diolch am y cyfle i ymgasglu fel cymuned er mwyn datgan diolch mewn cyfarfod cyhoeddus fel hyn.


## Y Brawd Ming ac Erledigaeth Ddigidol yn Tsieina

Dros y blynyddoedd, mae technoleg wedi dod yn rhan gynyddol o'n bywydau. Fodd bynnag, mae rhai gwledydd yn defnyddio technoleg yn gynyddol i fonitro symudiadau a gweithgareddau Cristnogion.

Yn Tsieina, mae gwyliadwriaeth ddigidol yn gwneud bywyd i Gristnogion yn fwyfwy peryglus. Mae credinwyr mewn sawl rhan o'r wlad yn gwybod y gallai pob symudiad gael ei wyllo, drwy deledu cylch cyfng ac ar-lein. Mae'n anghyfreithlon cyrchu'r Beibl ar y rhyngwryd, ac mae'r awdurdodau wedi mynnu bod apiau Cristnogol ac adnoddau ar-lein yn cael eu dileu.

Mewn rhai manau yn Tsieina mae'n gymharol hawdd cael copi print o'r Beibl. Ond mae'n llawer anoddach yn yr ardal lle mae'r Brawd Ming\* yn byw – yn enwedig os bydd y Beibl wedi'i gyfieithu i iaith ei grŵp ethnig. Rhaid i Ming fynd i drafferth fawr i guddio'i weinidogaeth o ddsbarthu Beiblau. 'Gallwn gael fy arestio, fy holi, a hyd yn oed fy ngharcharu,' meddai. 'Ond dw i'n gwybod bod Duw wedi fy ngalw i rannu'r efengyl drwy ddsbarthu Beiblau.'

Un diwrnod daeth ei ofnau yn wir. Arestwyd Ming a'i ffrindiau. Yn wyrthiol, cafodd ei ryddhau – ond roedd tynged ei ffrindiau yn wahanol. Roedd y ffaith ei fod wedi'i arestio wedi'i wneud yn amlwg ar radar yr awdurdodau, ac maent yn parhau i fod yn benderfynol o gyfyngu ar ei weithgareddau Cristnogol.



'Roeddwn i'n gwybod y byddai'n anoddach osgoi'r heddlu ac y byddai'n rhaid i mi fyw hyd yn oed yn fwy gofalus,' meddai. 'Dydwn i [yn swyddogol] ddim yn cael mynychu'r eglwys na hyd yn oed yn cael bod yn berchen ar Feibl bellach. Ar y dechrau, bob mis neu ddau, roedd yr heddlu'n chwilio fy nhŷ.'

Maen nhw'n dod yn llai aml nawr, ond maen nhw'n dal i chwilio cartref Ming yn rheolaidd. Diolch i gefnogwyr Open Doors, roedd Ming yn gallu cwrdd â Hao Ran,\* partner Open Doors yn lleol sy'n cynnig cymorth, gan gynnwys cymorth ariannol. Mae'n ffrind ar adeg drafferthus.

'Mae'r Brawd Hao Ran yn ddibynadwy,' meddai Ming. 'O leiaf ddwywaith y mis, rydyn ni'n gweddïo ac yn astudio'r

Beibl gyda'n gilydd. Rydyn ni'n rhannu eiliadau hapus a thrist gyda'n gilydd. Rydyn ni wedi adeiladu perthynas o ymddiriedaeth, a gwn fy mod gyda brawd sy'n gofalu, sy'n meithrin fy mherthynas â'r Arglwydd.'

Dywed Salm 121: 'Bydd yn gwyllo dros dy fywyd; bydd yr Arglwydd yn gwyllo dy ddyfodiad a'th fynd yn awr ac am byth.' Mewn byd lle gallai pob symudiad y mae Ming yn ei wneud gael ei olrhain gan yr awdurdodau, mae profi'r cyfeillgarwch cariadus, amddiffynnol hwn yn dod â chysur a chryfder.

\*Enw wedi ei newid am resymau diogelwch

*Am fwy o fanylion, ewch i [Open Doors](https://panel.cymru/cy/sul-diogelu)*

## Sul Diogelu, 19 Tachwedd

Cynhelir Sul Diogelu eleni ar 19 Tachwedd, i gyd-fynd ag Wythnos Diogelu yng Nghymru. Mae cynnal gwasanaeth Sul Diogelu yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn eich eglwys leol mewn mod cadarnhaol a chyfeillgar.

Yn ôl yr elusen ddiogelu [thirtyoneeight.org](https://thirtyoneeight.org), fe wnaeth eglwysi a gymerodd ran yn llynedd adrodd bod:

- ymwybyddiaeth well o ddiogelu ymhlith aelodau'r eglwys gyda chynnydd yn y niferoedd sy'n teimlo eu bod yn gallu siarad am eu cam-drin am y tro cyntaf;
- pobl ychwanegol yn gwirfoddoli ar gyfer swyddi diogelu a gwaith plant ac ieuencid;

- mwy o bobl yn cwblhau hyfforddiant diogelu a gwiriadau cofnodion troseddol;
- mwy o arweinwyr diogelu yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl gan yr Eglwys.

Felly beth am drefnu gwasanaeth diogelu eleni?

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol wedi paratoi gwasanaeth Sul Diogelu ac mae yna ffilm newydd ar y ffordd. Am fwy o wybodaeth ewch i dudalen Sul Diogelu ar wefan y Panel:

<https://panel.cymru/cy/sul-diogelu>



## Cyfrwl yn Dathlu Canmlwyddiant Deiseb Heddwch Menywod Cymru

Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyfrwl ddiwyieithog amlygyfrannog sy'n rhannu stori ryfeddol Deiseb gan fenywod Cymru dros heddwch byd. Roedd y Ddeiseb, a ddechreuwyd yng nghysgod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn gofyn i fenywod America gydweithio â nhw yn enw heddwch, ac fe'i llofnodwyd hi gan bron i 400,000 o fenywod Cymru – canran sylweddol o'r boblogaeth ar y pryd.


Mae 2023 yn nodi canmlwyddiant y Ddeiseb ac am y tro cyntaf mae'r hanes ysbrydoledig ar gael ar ffurf cyfrwl, *Yr Apêl – Hanes Rhyfeddol Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923–24* (Y Lolfa), wedi'i golygu gan Mererid Hopwood a Jenny Mathers. Mae'r Prifardd Mererid Hopwood hefyd wedi ysgrifennu'r cywydd 'Nes Dod' am yr hanes, a hwnnw sy'n cloi'r llyfr.

Mae awduron amrywiol y gyfrwl hon yn rhannu'r stori syfrdanol am sut y trefnwyd y Ddeiseb a'i chludo i America, sut y collwyd pob golwg ohoni a sut y cafodd ei hailddarganfod ganrif yn ddiweddarach. Stori wir yw hi mewn geiriau a llun am sut y gwnaeth menywod herio'r drefn.

Yn 2014, daeth testun yr Apêl a wnaed ym 1923 i olau dydd yn Nheml Heddwch ac lechyd Caerdydd, wrth i Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru yng Nghaerdydd baratoi at nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'i rhaglen 'Cymru dros Heddwch'. Roedd y Ddeiseb Heddwch yn galw ar America i ymuno â Chynghair y Cenhedloedd i atal argyfwng rhyfel arall, ar ôl erchylltra'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Dan arweiniad Annie Jane Hughes Griffiths (Cwrt Mawr), teithiodd dirprwyaeth o Gymru i America gyda'r nod o gysylltu â menywod America. Cyflwynwyd y Ddeiseb i gynrychiolwyr sefydliadau heddwch menywod America oedd yn cwmpasu aelodaeth o filoedd o fenywod, a daeth y pedair o Gymru i gysylltiad â rhai o fenywod mwyaf dylanwadol y wlad. Cyflwynwyd y ddeiseb hefyd i'r Arlywydd Calvin Coolidge yn y Tŷ Gwyn, lle cafwyd croeso cynnes.

Cafwyd hyd i'r Ddeiseb wedi ei storio yn Sefydliad y Smithsonian yn Washington



DC, yn dal yn ei chist dderw wreiddiol o waith J. A. Hallam. Yn Ebrill 2023, gan mlynedd ar ôl cludo'r Ddeiseb, fe'i dychwelwyd i Gymru fel rhodd i'r genedl gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Bydd yn cael ei chadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, ac arian gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn sicrhau bod pobl Cymru a thu hwnt yn medru dysgu am y bennod

ddiddorol yma yn ein hanes. Meddai'r golygyddion, Mererid Hopwood a Jenny Mathers: 'Ein gobaith ni yw y bydd darllen yr hanes yn ein hysbrydoli i barhau i weithredu yn ysbryd y menywod o Gymru a ddychmygodd, trefnu a llofnodi'r Apêl. Cyflwynai'r ddogfen weledigaeth fawr i'w holl ddarlennwyr. Deil y weledigaeth honno yr un mor fawr a'r un mor ddilys heddiw.'

Yn ei chyflwyniad, dywed Jill Evans, Cadeirydd Pwyllgor Ymchwil Partneriaeth Hawlio Heddwch: 'Hanes menywod yn goresgyn gwahaniaethau gwleidyddol, ideolegol a diwylliannol er mwyn ymgynnull a gweithredu dros heddwch. Mae'n amlwg fod trefnwyr a llofnodwyr Deiseb 1923 i'w cael mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Un o'u cryfderau oedd y ffaith eu bod yn cynnwys pawb, nid dim ond y breintiedig rai.'

Bydd *Yr Apêl* yn cael ei lansio'n swyddogol am 5 o'r gloch ar 3 Tachwedd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn rhan o Wyl Ymchwil Hawlio Heddwch Prifysgol Aberystwyth.

Cyhoeddwyd *Yr Apêl* gan Mererid Hopwood a Jenny Mathers (gol.) gan y Lolfa; pris £9.99.

### Annie Cwrt Mawr

**Drama un ferch yn seiliedig ar fywyd Annie Jane Hughes Griffiths, ymgyrchydd dros heddwch a roddodd lais i fenywod Cymru ar gydraddoldeb a materion rhyngwladol.**

Awdur: Siwan Jones  
Cyfarwyddwr: Janet Aethwy  
Cast: Anni Dafydd



Gellir cael manylion am y daith sy'n digwydd drwy Gymru hyd 17 Tachwedd drwy ddilyn y ddolen hon i wefan y cwmni drama 'Mewn Cymeriad':

[Annie Cwrt Mawr | Mewn Cymeriad](#)

## Un funud fach ...

Cefais fy magu mewn ardal arbennig, yng nghanol brynau'r Preselau – ardal Waldo, W. R. Evans, T. E. Nicholas, ac enwi dim ond rhai. Ac wrth i fi dyfu, does dim amheuaeth nad oedd yr ochr ddiwylliedig honno wedi bod yn hynod bwysig. Bues i'n aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Hermon ac Aelwyd Crymich, a drwy hynny wedi cael cyfleoedd amhrisiadwy: teithio dros Gymru a'r byd a chystadlu mewn sawl camp wahanol – o ganu mewn côr i dynnu'r gelyn.

Mae'r Aelwyd wedi bod yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed, a'r peth mwyaf wrth gwrs yw hel atgofion. Edrych yn ôl gyda gwên a deigrin. A diolch am yr Urdd ac am bopeth mae'n ei gynnig i ieuencid Cymru. Cafodd arwyddair llawn yr Urdd ei gyhoeddi yn 1932: 'Byddaf ffyddlon i Gymru a theilwng ohoni; Byddaf ffyddlon i'm cyd-ddyn, pwy bynnag y bo; Byddaf ffyddlon i Grist a'i gariad ef.'

'Nôl yn y flwyddyn 2000 roedd yna drafodaeth am ddyfodol yr ymadrodd 'Byddaf ffyddlon i Grist a'i gariad ef', trafodaeth i weld a oedd yna le i Iesu yn y mudiad. A oedd yna le i'r ffydd Gristnogol yng nghanol yr holl weithgaredd, gyda phobl yn dadlau, yn cynnwys gweinidogion blaenllaw, a ddylid ei gadw neu ei ddileu yn gyfan gwbl. Me hwn yn gwestiwn dwi fel Gweinidog sydd yn angerddol am weld pobl ifanc yn dod i ffydd yn ei ofyn yn aml iawn. A oes 'na le



i Iesu heddiw? Neu, fel y dywedodd Caryl Parry Jones yn ei charol fodern: 'Nadolig Llawn i chi i gyd ... yng nghanol swm y dathlu, a oes 'na le i'r Iesu, neu ydy'r llety'n llawn o hyd?'

Ble mae dechrau gyda'r cwestiwn heriol yma? Dwi'n berson sydd yn obeithiol ac yn credu bod Duw ar waith yn ein cymunedau. Dwi'n gallu gweld y llygaid yn rollo wrth ddarllen hyn, a llawer wedi gweld ein capeli yn brin iawn o ieuencid ers sawl blwyddyn. A ry'ch chi'n siŵr o fod yn gofyn: 'Beth yn y byd ma' hon yn siarad amdano? Ble ma'r gobaith?'

Mae'r gobaith yn y ffaith ein bod yn dal i geisio pethau newydd i gyrraedd ein hieuenctid. Mae gobaith bach fel fflam ar gannwyll; i'r fflam aros ynghyn, mae angen ocsigen arni. Ac, i ryw raddau, ni

yw'r ocsigen sydd ei angen ar fflam ein ffydd. Yr eiliad rydym yn penderfynu bod y gobaith wedi diflannu, bydd y golau yn diffodd, a bydd y llety nid yn unig yn llawn ond yn eistedd mewn tywyllwch. Wrth gadw i fynd, wrth gadw i weddio y bydd pobl yn dod i ffydd unwaith yn rhagor, wrth fynd i mewn i'r ysgolion, wrth genhadu yn ein cymunedau, bydd yna obaith, bydd yna oleuni. Dwi'n deall dyw e' ddim yn rhwydd; dwi ddim yn naïf am sefyllfa ein capeli. Ond drwy anobeithio, wrth benderfynu bod popeth ar ben, fydd yna fyth le i Iesu. Mae yna ddywediad yn y Saesneg, 'nothing changes if nothing changes', ac mae hyn mor wir. Gadewch i ni fod yr ocsigen i gadw'r fflam, i gadw'n ffyddlon i Grist a'i gariad ef.

*Sian Elin Thomas*

## Ethol esgob newydd Tyddewi

Ar 17 Hydref, etholwyd Archddiacon Caerfyrddin, Dorrien Davies, yn esgob nesaf Tyddewi – esgobaeth sy'n cwmpasu tair sir de-orllewin Cymru, sef sir Gaerfyrddin, sir Benfro a Cheredigion. Daw'r etholiad ar ôl i Joanna Penberthy, a fu'n gwasanaethu fel Esgob Tyddewi ers 2017, ymddeol ddiwedd mis Gorffennaf. Cafodd y cyhoeddiad ei wneud wrth ddrws gorllewinol y gadeirlan gan Archesgob Cymru, Andrew John. Meddai, 'Rwyf wrth fy modd bod Archddiacon Caerfyrddin wedi'i ethol. Bydd ei brofiad o'r lle hwn a'i ddoethineb dwfn a'i sgiliau i gyd yn cael eu defnyddio wrth arwain yr esgobaeth yn ei blaen a'i dwyn ynghyd mewn ffydd, gobaith a chariad. Yn ei ofal ef, gwn y bydd yr esgobaeth hon, fel y dywedodd Dewi Sant ei hun wrthym, yn llawn, yn gwneud y pethau bychain ac yn cadw'r ffydd.'



Dywedodd yr Archddiacon Dorrien, 'Mae'n ffrainc ac yn anrhydedd o'r mwyaf bod y Coleg Ethol wedi fy mhenodi i wasanaethu fel esgob a byddaf yn gwneud fy ngorau i wasanaethu nid yn unig yr esgobaeth ond Talaith Cymru. Mae hyn yn golygu llawer iawn i mi ac edrychaf ymlaen at arwain yr esgobaeth hon at bethau gwych a newydd.'

Yn enedigol o Abergwili ac yn Gymro Cymraeg, hyfforddwyd Dorrien ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf, ac ordeiniwyd ef yn offeiriad ym 1989. Gwasanaethodd fel curadur yn Llanelli cyn cael ei benodi'n Ficer Llanfihangel Ystrad Aeron yng Ngheredigion. Yn ystod y cyfnod hwnnw, astudiodd Dorrien am radd ym Mhrifysgol Cymru, Coleg Llanbedr Pont Steffan, gan raddio ym 1995. Fe'i penodwyd yn ficer Llandudoch, sir Benfro, ym 1999 a gwasanaethodd yno am 11 mlynedd. Yn 2007, fe'i gwnaed yn ganon yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi ac yn 2010, symudodd i Dyddewi fel Canon Preswyl. Yn 2017 penodwyd Dorrien yn Archddiacon Caerfyrddin ac yn offeiriad â gofal Sanclêr. Mae Dorrien yn briod â Rosie ac mae ganddynt ddau fab, Morgan a Lewies. Mae ei hobiau yn cynnwys darllen a phaentio.

# Hwb Trafod Cydenwadol



Daeth tua 60 o bobl ynghyd yn Neuadd Maenclochog ar 18 Hydref i drafod dyfodol ein heglwysi yn y dyddiau heriol hyn. Trefnwyd y cyfarfod gan Gyfundeb Annibynwyr Penfro, gyda chydweithrediad parod enwadau eraill. Roedd hi'n galonogol gweld cynifer wedi ymgynnull mewn ysbryd o gydweithio er mwyn sicrhau dyfodol achos Crist yng ngogledd sir Benfro.

Cafwyd arweiniad i'r prynhawn gan y Parchedigion Dyfrig Rees (Annibynwyr), Judith Morris (Bedyddwyr), Martin

Spain (yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig) ac Ainsley Griffiths (yr Eglwys yng Nghymru). Ar ôl dished a baratowyd gan Mr Ian Eynon, cafwyd hanner awr o drafodaeth mewn grwpiau.

Pwrpas y grwpiau trafod oedd cyfnewid syniadau positif ac ymarferol fydd yn ein galluogi i gynnal ein heglwysi, ychwanegu at ein cynulleidfaoedd ac wynebu'r dyfodol gyda hyder ac optimistiaeth. Bu'r drafodaeth yn fywiog a chasglwyd nifer o syniadau diddorol at ei gilydd. Bydd ysgrifennydd y Cyfundeb nawr yn trefnu ac yn dosbarthu'r syniadau i'r rhai

oedd yn bresennol, ac i'r rhai oedd yn methu bod yn y cyfarfod.

Bydd cyfarfod arall ym mis Chwefror pan fydd cyfle i'r eglwysi rannu unrhyw ddatblygiadau positif sydd wedi digwydd ers y cyfarfod hwn a thrafod y ffordd ymlaen yn fanylach. Y gobaith yw trefnu amser a fydd yn fwy cyfleus i'r rhai ifanc sy'n gweithio yn ystod y dydd.

Cyn cyhoeddi'r fendith, diolchodd y Parchg Ken Thomas, Llywydd y Cyfundeb, i bawb am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

COLEG Y BALA  
17-19/11



## ARFOGI 23 TACHWEDD 17-19 | COLEG Y BALA

*THEMA: TROI'R BYD BEN I WAERED*

Mae ARFOGI yn ddigwyddiad blynyddol i oedolion ifanc o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae croeso i fyfyrwyr, teuluoedd ifanc ac unrhyw un yn eu 20au a 30au!

Wrth i ni ddod at ein gilydd eto i addoli, gwrando ar Air Duw a mwynhau cymdeithas gynnes, ein gweddi yw y cawn ein trawsnewid yn Ei bresenoldeb ac y byddwn yn gadael ARFOGI 23 wedi ein hannog i fyw yn llwyr i'r Arglwydd, wedi ein harfogi i chwarae ein rhan a gyda disgwyliad newydd i weld Duw yn symud yn nerthol yn ein cymunedau, yn ein cenedl a'n byd.


Pris y penwythnos cyfan yw £65, yn cynnwys bwyd a 2 noson o lety yng Ngholeg y Bala neu Fryn y Groes; £25 yw'r pris am y dydd Sadwrn yn unig. Mae croeso hefyd i bobl wneud eu trefniadau llety eu hunain.

Os oes digon o ddi-ddordeb, bydd bws mini yn cael ei drefnu gyda man codi a gollwng yng Nghaerdydd. Bydd gofal plant hefyd ar gael.

Mwy o fanylion a chofrestru ar y ddolen hon:

[Arfogi – Souled Out Cymru](#)

Mae Rhaglenni  
Cymanfaoedd Canu  
Cydenwadol 2023-24  
nawr ar gael!



Gellir eu harchebu trwy ffonio Helen Gibbon ar 01267290518 neu ebostio: [helengibbon1@btinternet.com](mailto:helengibbon1@btinternet.com)

# Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 6

'Y Gair ar waith' – Bod ar gael Luc 11:5–13 | 5 Tachwedd



## Gweddi

Nefol Dad, cymorth ni yn ein myfyrdod heddiw i ystyried beth sydd gennym yn ein heglwys ac ym mha fodd y gallwn ddefnyddio'r hyn sydd gennym, boed fach, boed fawr, a rhoi'r oll ar allor dy wasanaeth. Amen.

**Darlleniad:** Luc 11:5–13

## Cyflwyniad

Ar ystad Ysgubor Goch yng Nghaernarfon ceir awydd i fod yn gymorth i drigolion y fro heb ddisgwyl unrhyw beth yn benodol, gydag Eglwys Bresbyteraidd Noddfa yn cynnig gweithwyr cymdeithasol, a hwythau yn eu tro ar gael i wasanaethu trigolion yr ystad. Bu nifer o weithwyr yno yn y gorffennol yn ceisio pontio eglwys a chymdeithas, ac mae'r gweithwyr cyfredol wedi eu hyfforddi i gynnig cyngor i'r trigolion ar sut i lenwi ffurflenni a deall eu hawliau fel dinasyddion. Gwyddom fel y gall tudalennau o ddata edrych mor anodd, ac oni bai fod gan y sawl sy'n ceisio'u llenwi ddealltwriaeth o iaith a themau ffurflenni felly, mae'n hawdd colli hyder a hefyd colli awydd i barhau.

Bydd Canolfan Noddfa yn agored i'r oedranau a'r ifanc, y sawl sydd mewn gwaith a'r sawl sydd heb waith; nid oes wahaniaeth beth yw iaith na chefnidir y bobl sy'n gofyn cymwynas, bydd y gweithwyr yn Noddfa ar gael i'w cynorthwyo.

Eglwys mewn adeilad bychan a di-nod yw Noddfa, ac nid yw'r gynulleidfa yn sylweddol chwaith. Maent yn ceisio cynnal ysgol Sul ac oedfaon cyson. Ceir cyfarfodydd wythnosol yn ôl y doniau sydd yno, ond eglwys yw hon a'i hwyneb yn edrych am allan, ac yn agored i wasanaethu'r ardal ddifreintiedig sydd o'i chwmpas.

## Myfyrdod

Faint o eglwysi yng Nghymru sy'n teimlo'u bod yn wan ac yn aneffeithiol, a heb fawr o hyder yn eu doniau a'u golwg ar ystyried

cau? Dyma fyddai edrych yn fewnol ac yn ddiobaith, heb weld y byd sy'n teithio heibio. Bydd gan bob unigolyn brofiadau bywyd y gall eu rhannu ag eraill, rhai wedi eu dysgu ar ysgol brofiad lawen a llwyddiannus, tra bydd eraill wedi cael profiadau chwerw ac anodd ond wedi gweld haul ar fryn. Yr her i bob eglwys, lle bynnag y bydd, yw gofyn pa sgiliau sydd ganddynt fel teulu neu fel unigolion y gellir eu cynnig i'r gymuned leol nad yw, o reidrwydd, yn arddel ffydd neu'n gysylltiedig ag unrhyw eglwys. Camp 'yr eglwys ar waith' yw darganfod modd o wneud cyswllt rhyngddi a'r byd tu fas i'r adeilad ac, mae'n siŵr, â'r cylch adnabod naturiol sydd gan aelodau'r eglwys. Nid gwasanaethu ein hunain na phobl debyg i ni yw amcan eglwys, ond bod ar gael i'r gymdeithas ehangach. Camp lwyddiannus eglwys Noddfa ar ystad ddifreintiedig Ysgubor Goch yw agor drws a bod ar gael i eraill.

Yn y darlleniad heddiw, nid yw'r sawl sy'n gofyn yn cael ateb ffafriol iawn. Pwy sy'n gofyn rhywbeth gennym ni, ac i ba raddau rydym yn barod i rannu'r hyn sydd gennym? Mae hanes Noddfa yn mynd â'r torthau allan at y newynog ac yn dyheu am weld eraill yn dod, nid yn unig at y bwrdd, ond at Fwrdd y Bywyd.

## Gweddi

Diolch, Arglwydd, am aelodau a gweithwyr dy eglwys yn Noddfa. Boed i'r gymdogaeth sylweddoli dy fod ar waith yn eu plith ac yn estyn o'th fwrdd mewn modd llawer helaethach nag y gallant ei ddychmygu. Amen.

## Cwestiynau i'w hystyried

- 1 A oes perygl i ni feddwl am weddi fel elfen ffurfiol mewn oedfa, heb brofi'r taerineb hwnnw o angen dyn gerbron Duw?
- 2 Pa elfennau o weddi gyhoeddus yw'r pwysicaf yn eich barn chi: mawr, diolch, eiriolaeth, cyffes neu ymgysgriad?

- 3 Ai drws agored neu ddrws caeedig sydd i'n capeli a'n cymdeithasau ni?
- 4 Pa wedd o weddi sy'n dod gyntaf – edrych i fyny at Dduw, edrych oddi mewn i ni ein hunain, neu edrych allan tuag at y byd o'n cwmpas?
- 5 A oes unrhyw gymal y carech ei ychwanegu at weddi'r Arglwydd, neu a yw'n hollgynhwysol yn barod?



Eglwys  
Bresbyteraidd  
Cymru

Henaduriaeth Mid Wales  
and Border

## Gweithiwr Cenhadol Arloesol

Mae Henaduriaeth Mid Wales and Border yn dymuno penodi Gweithiwr Cenhadol Arloesol i ddatblygu gweiniogathau plant ac ieuencid a darparu ffocws ar gyfer ymestyn allan i gymunedau gwledig a ffermio

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.

**Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.

**Cyfllog:** Band 22-26 (£24,727 - £26,950) ar raddfa cyflog EBC. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC

**Lleoliad:** Gweithio o gartref ac yn ardal Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod.

Mae'r Swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:-

e-bost: [Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru](mailto:Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru)

ffôn: 07787 522904/02920 627465

**Dyddiad cau: 8 Tachwedd, 2023 am 4pm.**

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 5 Tachwedd, am 7.30yh

Bydd Lisa Gwilym yn sir Feirionnydd i ddathlu 200 mlwyddiant addoldy arbennig iawn – Capel Soar, Cynllwyd. Cawn ddysgu mwy am hanes yr achos gan yr hanesydd Beryl Hughes Griffiths a'r gweinidog, Carwyn Siddall. Daw'r emynau o'r Hen Gapel, Llanuwchllyn, a chawn berfformiad gan Gôr Plant yr Ofalaeth.

radio  
cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

Sul, 5 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Evan Morgan, Caerdydd

**Sul, 5 Tachwedd, am 12yp**

Oedfa dan ofal Nesta Davies, Abergele

## Cadw'r cysylltiadau â Madagascar yn fyw

O Gymru yr aeth y cenhadon cyntaf i F Madagascar yn 1818. Canfu grŵp o Gymru fu'n ymweld yr haf hwn fod y berthynas rhwng y ddwy wlad yn dal yn bwysig.

Hwn oedd pumed ymweliad Sharon Rees, gweithiwr cenhadol yn Eglwys Undebol Llanfair yn y Rhondda, â Madagascar. Meddai, "Mae cymaint o gysylltiadau rhwng Llanfair a'n brodyr a chwiorydd ym Madagascar. Dros y 30 mlynedd diwethaf rydym wedi cael ein bendithio i groesawu dros 30 o wirfoddolwyr Malagasi i wasanaethu Duw yn ein cymuned ym Mhenrhys – gan helpu yn yr Ysgol Sul, y clwb gwaith cartref, y clwb crefftau, y caffi ac yn yr ysgol gynradd. Maent wedi cyfrannu cymaint; rydym wedi dysgu llawer oddi wrth ein gilydd ac mae cyfeillgarwch wedi parhau a thyfu dros y blynyddoedd.

"Roedd yn bleser arbennig i mi allu cyfarfod â nifer o gyn-wirfoddolwyr yn ystod ein hymweliad eleni. Un ohonynt oedd Hanta Kely. Daeth Hanta i Benrhys yn ferch swil 18 mlwydd oed yn 2001, ynghyd â gwirfoddolwr arall, Nicolas, a oedd yn gweithio yn swyddfa eglwys FJKM (Eglwys Bresbyteraidd Madagascar). Nawr maen nhw'n briod ac mae ganddyn nhw ddwy ferch, Kezia ac Enya; braf oedd eu gweld nhw hefyd.

"Ar ôl Penrhys, hyfforddodd Hanta fel gweithwraig gymdeithasol ac mae bellach yn gyfarwyddwr cartref plant Akany Avoko, lle bu'n byw fel plentyn gyda'i chwaer pan oeddent yn blant amddifad."

Ymwelodd Hanta a'i chyd-weithiwr Naomi (cyn-wirfoddolwr arall o Benrhys) â Chymru yn 2018, ar gyfer dathliadau daucanmlwyddiant y cenhadon cyntaf i F Madagascar.

### Ymweliadau ysbrydoledig

Roedd ymweld ag Akany Avoko yn brofiad emosiynol ac ysbrydoledig. Fely dywedodd un ymwelydd: "Profi'r eithafion wnaethom yn y cartref plant: gweld babanod mis oed a oedd wedi'u gadael ar domen sbwriel ar y naill law, ac ar y llall cwrdd â phobl ifanc oedd mor awyddus i rannu eu huchelgais, eu gobeithion a'u breuddwydion. Mae yna gyfleoedd ar gyfer addysg hyd at lefel gradd ac i rai plant, Akany Avoko yw eu cartref nes iddynt briodi. Roedd yr awyrgylch yn llawn positifrwydd ac yn rhannu cariad Duw."

Yn Ysgol David Griffiths gerllaw daeth plant i'n cyfarch, yn chwifio baneri Cymru a Madagascar. Yn 2017 bu bron i'r ysgol gau oherwydd diffyg arian a'i chyflwr gwael. Mae ymdrechion codi arian yng Nghymru wedi helpu'r ysgol i atgyweirio'r to a phrynu cyflenwadau hanfodol. Roedd y Cyfarwyddwr (pennaeth) yn falch o ddangos



yr ystafell ddosbarth newydd sy'n cael ei hadeiladu i'w defnyddio ym mis Medi, gan egluro bod y plant wedi cyfrannu at y gost, er eu bod yn dod o deuluoedd tlawd.

### Etifeddiaeth genhadol

Sefydlodd y cenhadon Cymreig David Griffiths a David Jones, gyda phobl leol, yr ysgol gyntaf ym Madagascar. Llwyddasant i bregethu a dysgu yn y Falagaseg, wedi iddynt ei meistrol'i'n gyflym. Fe wnaethon nhw drawsgrifio'r iaith i lythrennau Rhufeinig a chwblhau'r cyfieithiad cyntaf o'r Beibl a deunydd diwinyddol arall. Erbyn 1830 roedd tua 15,000 o ddisgyblion wedi dysgu darllen y Falagaseg.

Bu i Jones a Griffiths hefyd adeiladu eglwysi o amgylch y brifddinas, gan ddenu llawer o bobl, a chydabyddir eu bod wedi gosod seiliau'r eglwys Brotestannaidd ym Madagascar. Ffrwyth pennaeth y genhadaeth hon yw Eglwys Iesu Grist ym Madagascar (FJKM), partner trwy Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) â'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC), Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Heddiw, mae gan FJKM fwy na chwe miliwn o aelodau ac mae'n dal i dyfu. (Mae gan EBC ac Undeb yr Annibynwyr lai nag 20,000 o aelodau yr un!)

Fe ymunom ni ag oedfa bore Sul yn un o eglwysi FJKM. Roedd y gwasanaeth yn dechrau am 6.30 y bore, ond roedd angen i ni fod yno erbyn 5.30 i fod yn sicr o gael sedd. Y Falagaseg oedd iaith yr oedfa, gydag ychydig eiriau i'n cyfarch yn Saesneg; ymatebom ni drwy ganu 'Calon Lân'.

Gerllaw'r eglwys roedd adeiladau'r hen ysgol genhadol, sydd i'w hailagor fel ysgol newydd ym mis Medi. Yn ystod y gwasanaeth gweddiwyd dros yr ysgol newydd a thros 18 o athrawon newydd, pob un yn aelodau o'r gynulleidfa.

Dywedodd un o'n grŵp: "Roedd yn galonogol gweld cymaint o athrawon a gweddi drostynt. Cefais fy syfrdanu o glywed gan wraig y gweinidog ar ôl y gwasanaeth fod y dynion a'r merched hyn yn athrawon cymwys oedd yn cael eu cyflogi mewn ysgolion eraill, ond a oedd yn rhoi'r gorau i'w swyddi cyflogedig i gefnogi'r fenter eglwysig newydd hon. Ar y dechrau maen nhw'n gwneud hyn fel gwirfoddolwyr, nes bydd y gyllideb yn

caniatáu iddyn nhw gael eu talu. Mae'n enghraifft nodedig o ffydd ac ymrwymiad."

### Cynyddu ymwybyddiaeth ac undod

Roedd ein hymweliad yn bosibl diolch i Miara Rabearisoa, sy'n gweithio i EBC yng Ngofalaeth Dwyrain Maldwyn, lle cafodd ei wraig Rebecca ei hordeinio a'i sefydlu'n weinidog fis Hydref eleni. Rebecca a Miara, ynghyd â'u teulu ym Madagascar, gynlluniodd fanlyon ein taith, archebu pob dim a gofalu amdanom drwy gydol ein pythefnos yno.

Dywed Miara, "Rwy'n aml yn sôn wrth fy ffrindiau yma yng Nghymru am fy ngwlad brydferth, Madagascar. Rwy'n cynnal sgysiau ac yn trefnu digwyddiadau, ond rwyf bob amser eisau i bobl weld yr harddwch a phrofi bywyd ym Madagascar drostynt eu hunain a chael gwybod mwy am y bobl Malagasi.

"Roeddwn i eisau i'r ffrindiau hyn o eglwysi Cymru weld y fioamrywiaeth unigryw a phrofi ffordd pobl o fyw, ein diwylliannau, ein ffydd, yr eglwys, yr heriau a'u gwydnwch. Roeddwn i am iddyn nhw weld gwahanol brosiectau ac ymweld ag ysgolion. Roeddwn hefyd am iddyn nhw weld realiti trist tldi sy'n effeithio ar filiynau o bobl Madagascar a sut mae newid yn yr hinsawdd a'r pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa honno.

"Roedd ein hymweliad yn arwyddocaol ac yn galonogol i'r bobl a'r mudiadau y bu i ni gyfarfod â nhw. Cafodd ffrindiau o Gymru gyfle i ddeall y cyd-destun a gweld y gwaith y mae'r bobl a'r mudiadau hynny'n ei wneud. Byddant yn gobeithio y bydd ein hymweliad yn creu ymwybyddiaeth ehangach o'u gwlad, oherwydd anaml y mae penawdau'r newyddion yma'n sôn am y sefyllfa ym Madagascar. Maen nhw eisau i bobl yng Nghymru gofio'u brodyr a'u chwiorydd ym Madagascar, gweddi drostynt ac efallai eu helpu yn y gwaith maen nhw'n ei wneud."

Mae'r cysylltiadau hanesyddol trwy ein teulu CWM yn dal yn bwysig ac yn gryf. Fel y dywedodd un aelod o'r grŵp: "Daethom i ddeall o'r newydd ein bod ni, 200 mlynedd yn ddiweddarach a chyfandiroedd ar wahân, yn un yng Nghrist Iesu."

Fiona Liddell  
Eglwys Beulah (URC)  
Caerdydd


## Liliau Tân: Atgofion Rhiannon Lloyd (Addasiad Cymraeg gan Arfon Jones)

Er nad oedd yr awdur eisiau sgrifennu amdani ei hun a bod y llyfr yn cael ei ddisgrifio fel 'Atgofion', math o hunangofiant yw *Liliau Tân* i bob pwrpas, ond hunangofiant sy'n dilyn thema benodol. Felly, wrth droi i'w ddarllen, cefais fy hun yn gofyn beth sy'n gwneud hunangofiant da, ac yn benodol beth sy'n gwneud hunangofiant Cristnogol da?

Byddwn yn awgrymu ydylai hunangofiant da godi cwr y llen ar fywyd unigolyn, gan wneud mwy na dweud hanesion yn unig. Dylai hefyd roi blas ar gymeriad a phrofiadau bywyd a sut mae'r profiadau hynny wedi newid yr unigolyn. O ran hunangofiant Cristnogol, mae'n debyg y dylai fod yn llyfr sy'n ysbrydoli, gyda hanesion cyffrous am waith Duw, ond heb roi'r argraff i'r darlennydd fod y pethau yr ysgrifennir amdanynt yn bethau sy'n medru digwydd i fath arbennig o berson yn unig, a bod hynny'r tu hwnt i'r darlennydd a'r Cristion cyffredin.

Yng ngoleuni hynny, mae *Liliau Tân* yn llwyddo am ei fod yn ddifys a dadlennol a'i fod yn herio a chysuro. Rwyf wedi clywed ychydig am fywyd a gwaith Rhiannon ar hyd y blynyddoedd ond nid oeddwn yn ei nabod yn dda, ac felly roedd darllen y llyfr yn brofiad arbennig. Roeddwn wedi clywed sôn am yr hyn y mae Duw wedi ei gyflawni yn ei bywyd a thrwyddo, ac roeddwn yn disgwyl cael fy herio gan hynny. Ond cefais fy nghysuro gan ei gonestrwydd, yn arbennig ei dealltwriaeth o'i gwendidau ei hun a'r ffordd yr oedd yn ei gweld ei hun. O'r bennod gyntaf, lle mae'n ei disgrifio'i hun fel person cyffredin, mae'n ein tynnu i mewn i'w hanes ac yn ein gorfodi i ofyn: os yw Duw yn medru gwneud hyn yn ei bywyd hi, beth mae'n medru ei wneud ynof fi?

Gwelir y gonestrwydd hwnnw hefyd pan mae'n sôn am gyfnodau o ansicrwydd am ei ffydd a hefyd y frwydr ynghylch sut yr oedd yn gweld Duw: ai fel tad cariadus a thrugarog neu Pharo creulon? Roedd



gwaith Duw yn ei chalon i newid hynny yn raddol a gofalus, fel roedd y ffordd y gwnaeth Duw ei harwain drwy brofiadau amrywiol mewn sefyllfaoedd anodd ar draws y byd i'w pharatoi ar gyfer y weinidogaeth gyfoethog oedd ganddo ar ei chyfer. Dro ar ôl tro, fe welwn hanesion am Rhiannon yn wynebu sefyllfaoedd lle mae'n profi ei bod allan o'i dyfnder, ond gan fod yr Arglwydd wedi ei harwain yno, ei fod Ef wedi darparu ar ei chyfer.

O ddarllen hanesion Rhiannon, fe welwn fod Duw Gobaith yn dod â goleuni i rai o'r sefyllfaoedd mwyaf tywyll ac anobeithiol y mae modd eu dychmygu a'i fod yn dewis gwneud hynny drwy ufuddod ei blant. Yn hyn o beth, mae'r darlun o liliau tân yn bwysig. Mae'r blodyn hwn yn un arbennig iawn; dim ond yn sgil tanau dinistriol y mae'n tyfu, mewn tir lle'r oedd yn ymddangos na allai dim byd dyfu. Mae hanes Rhiannon yn dangos i ni fod yr Arglwydd yn medru gweithio ym mhrofiadau mwyaf anodd a dinistriol bywyd i wneud rhywbeth gwerthfawr a phrydferth.

Yn sgil gwaith Rhiannon ar brosiectau cymodi, un o wersi mawr y llyfr yw grym ac arwyddocâd y Groes, a bod hynny'n

gwbl allweddol ar gyfer edifeirwch a maddeuant gwirioneddol, sydd yn sylfaen wedyn i unrhyw gymodi. Mae'r llyfr yn llawn o enghreifftiau gwefreiddiol a rhyfeddol o hyn ym mywyd unigolion, a hynny wedyn yn arwain at weddnewid pentrefi, trefi ac ardaloedd cyfan.

Thema arall amlwg yn y llyfr ac un sy'n berthnasol i ni yng Nghymru yw bod Duw yn defnyddio'i eglwys, hyd yn oed pan nad yw'r eglwys ei hun yn credu y medr gael ei defnyddio. Mae'r hanesion am Dduw yn defnyddio eglwysi (oedd wedi bod yn euog o fod yn dawel yn ystod hil-laddiad) i gynnig gobaith i'w cenhedloedd yn ein hatgoffa unwaith eto am allu Duw i ddefnyddio llestri pridd, clwyfedig a thoredig i wneud ei waith. Dyma wers i ni heddiw.

Mae holl brofiadau Rhiannon, fel Cymraes ac yn ei hymwneud â phobl o sawl hil, llwyth a chenedl wahanol, hefyd yn codi cwestiwn pwysig am undod ac amrywiaeth o fewn yr eglwys, sef a yw dod i berthyn i genedl sanctaidd Duw yn golygu unfurfiaeth? Ateb clir Rhiannon, ar sail ei phrofiadau byd-eang yw: nac ydyw. Mae undod ac amrywiaeth yn rhan o natur Duw'r Drindod ac felly dylai fod yn wir hefyd yn yr eglwys, neges y mae angen i ni ei chlywed heddiw.

Yn ei ragair i'r gyfrol, mae Arfon Jones yn sôn bod Duw wedi defnyddio profiadau bywyd Rhiannon i siapio'i gweinidogaeth a'i helpu i gyfathrebu a rhannu ei neges mewn ffordd onest, apelgar ac agored. Efallai mai'r cwestiwn pwysicaf i ni sydd yn ei darllen yw sut y mae'r Arglwydd am siapio ein bywydau ni i'w bwrpas Ef a'n defnyddio yng ngwaith ei deyrnas? Diolch am y fraint o ddarllen y llyfr a chael fy atgoffa o rai o'r gwirioneddau sylfaenol hyn am natur Duw, ei awydd i fod ar waith yn y byd, a'i barodrwydd i ddefnyddio'i blant gwan ac annigonol i wneud ei waith. Prynwch a darllenwch, wir!

Arwel Jones  
Caernarfon

(Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair, 2023; 252 tt; pris: £11.99)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)